

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL

www.llanfaircommunitycouncil.co.uk

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol a Chyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd gan ddefnyddio plattform fideo gynadledda/ffôn gynadledda Zoom nos Lun, 15 Mehefin 2020 am 7pm. Dim ond materion angen sylw brys yr ymdriniwyd gyda nhw nes codi'r cyfyngiadau oherwydd Covid.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr Jayne Mayers [Cadeirydd], Keith Mouldale [Is-gadeirydd], David Baker, Wini Davies, Owen Evans, Tim Faire, Osian Owen, Ceri Ranson, Steve Whipp ac Eirwen Godden, Clerc.

HEFYD YN BRESENNOL – 1 aelod o'r cyhoedd.

YMDDIHEURIADAU – Y Cynghorydd Bob Barton [cyfarfod arall]

670 SYLWADAU'R CADEIRYDD WRTH YMDDEOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Jayne Mayers drosolwg o weithgareddau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fel a ganlyn [copi o'r adroddiad llawn i'w anfon at yr aelodau]:

- 12 cyfarfod, yn cynnwys Cyfarfod Agored a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2020 i ymdrin â phryderon trigolion am gau priffyrdd a llwybrau a sut roedd y pentref wedi dod i stop oherwydd yr holl waith datblygu yn Llanfair dros nifer o fisoedd
- 8 siaradwr gwadd
- Trafodaethau'n parhau gyda Grŵp Cynefin i sicrhau fod yr elusendai yn Llanfair yn cael eu hadnewyddu a'u defnyddio eto
- Adolygwyd Cofrestr Asedau'r Cyngor, a'i diweddarau, addasu symiau a hysbysu'r cwmni yswiriant yn unol â hynny
- Ystyriwyd 6 dogfen ymgynghori, ac anfonwyd ymatebion
- Dyfarnwyd grantiau gwerth £3,620 i 14 grŵp gwirfoddol
- Cyfeiriwyd 36 mater o bryder lleol i Gyngor Sir Ddinbych yn ymwneud ag amrywiaeth o faterion o wasanaethau bws, carafanau i broblemau priffyrdd a llifogydd
- Cafodd 28 o geisiadau cynllunio eu hystyried
- Diweddarwyd trydydd rhifyn y Cynllun Cymdogaeth a'i gyhoeddi – diolchwyd i'r Cynghorydd Steve Whipp a Mr P Bennett Lloyd am eu mewnbwn gwerthfawr a pharhaus i'r grŵp Cynllun Cymdogaeth
- Cyhoeddodd Pwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor ganlyniadau astudiaeth ddichonoldeb gwasanaethau lleol – cyfrannodd y Cyngor Cymuned tuag at y gost.
- Croesawyd y Cynghorwyr Owen Evans a Steve Whipp yn lle Moira Edwards a Paul Weston.
- Agorodd yr ysgol newydd yn Llanfair yn Chwefror 2020 – mae trafodaethau'n parhau ynghylch defnydd safle'r hen ysgol yn y dyfodol [item agenda ar gyfer 13/07/20 – papur dewisiadau]
- Cynhyrchwyd rhifyn cyntaf Cronicle Dyffryn Clwyd ym mis Ebrill 2019, i'w gyhoeddi'n chwarterol wedi hynny – cyfrannodd y Cyngor Cymuned tuag at y costau.
- Gosodwyd mainc y talwyd amdani trwy gyfraniad preifat ger y Gofeb Rhyfel er cof am griw awyrlu a gafodd ddamwain yn eu hawyren a'u lladd yn lleol ar 17 Gorffennaf 1942.
- Ym mis Medi 2019 cytunodd y Cyngor Cymuned i waith trwsio a gwella'r Gofeb – i'w gwblhau erbyn haf 2020.

- Adolygwyd a diweddarwyd gwefan y Cyngor i gydymffurfio â rheoliadau hygrychedd – disgwylir y bydd y wefan newydd yn cael ei lansio rhywbryd yn ystod Mehefin 2020.
- Daeth Fferm Wynt Brenig yn weithredol ar 30 Mawrth 2019 a dechreuodd Fferm Wynt Clocaenog gynhyrchu trydan ym mis Mehefin 2019.

671 ETHOL CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD AR GYFER 2020/21

[a] Cynigiwyd ac eiliwyd ail-ethol y Cynghorydd Jayne Mayers yn Gadeirydd. Cafodd hyn ei gytuno.

[b] Cynigiwyd ac eiliwyd ail-ethol y Cynghorydd Keith Mouldsdaie yn Is-gadeirydd. Cafodd hyn ei gytuno.

Ffurflenni Datgan Derbyn Swydd i'w e-bostio i gael eu llofnodi a'u dychwelyd at y Clerc.

RHAN 1

672 DATGAN BUDDIANNAU Y Cynghorydd David Baker fel aelod o Gyngor Eglwys Llanfair a'r Cynghorydd Keith Mouldsdaie fel ymddiriedolwr Pwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor.

673 COFNODION – PENDERFYNWYD

673.1 Ailgadarnhawyd cofnodion y Cyfarfod Blynyddol/Cyffredin a gynhaliwyd ar 13 Mai 2019.

673.2 Cymeradwywyd cofnodion y Cyfarfod Cyffredin a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2020 a'u llofnodi fel cofnod cywir. Nodwyd na fu'n bosibl i'r Cyngor gyfarfod ym mis Ebrill a Mai oherwydd cyfyngiadau Covid.

674 GOHEBIAETH

674.1 Adroddwyd fod diweddariadau/briffiadau ynghylch Coronafeirws a materion eraill gan Un Llais Cymru / SLCC / Cyngor Sir Ddinbych wedi'u rhannu gyda'r aelodau trwy e-bost/post a'u rhoi ar wefan y Cyngor. Nodwyd y trefniadau / diweddariadau o ran y sefyllfa a nodwyd yr argymhellion.

674.2 Anfonwyd llythyr dyddiedig 18/05/20 at drigolion gan gwmni Wales & West Utilities ynghylch cau priffyrdd yn ystod Mehefin a Gorffennaf ar gyfer gwaith hanfodol i gysylltu gyda'r rhwydwaith nwy. Nodwyd hynny, ond bydd oedi oherwydd cyfyngiadau Covid. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Wales & West Utilities i gael amserlen ddiwygiedig gyfredol.

675 CYNLLUNIO www.sirddinbych.gov.uk/cynllunio

Cadarnhaodd yr aelodau'r gweithredu ynghylch y ceisiadau cynllunio isod a dderbyniwyd yn ystod yr argyfwng Covid pan na chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd [roedd yr aelodau wedi anfon eu sylwadau at y Clerc trwy e-bost]:

675.1 Cais 20/2020/0050 The Cottage Fron Isaf, Pentrecelyn a gyflwynwyd gan Mr a Mrs Barlow. Addasiadau i'r sgubor gysylltiedig i ffurfio estyniad i'r annedd sy'n bodoli eisoes yn yr eiddo uchod. Gwnaed sylwadau fel a ganlyn: Y consensws oedd y dylid cefnogi'r cais; mae'n edrych fel gwelliant, fodd bynnag, tybir nad yw'r cynnig yn golygu edrych drosodd i neu o eiddo eraill. Gan fod arwynebedd y to i'w gynyddu dylai'r ymgeisydd sicrhau y darperir draeniad digonol. Holwyd a oedd angen arolwg ecolegol.

675.2 Cais 20/2020/0172 Ty Isaf, Llanfair DC. Cyflwynwyd gan Mr a Mrs R Edmunds. Adeiladu estyniadau adnewyddol a gwaith cysylltiedig yn yr eiddo uchod. Gwnaed sylwadau fel a ganlyn – consensws y dylid cefnogi'r cais. Ymddengys fod y cynnig yn dangos gwneud defnydd llawer gwell o'r gwagle a bydd yn tynnu ymaith yn gymesur gyda'r estyniadau. Bydd rhaid adeiladu'r adeilad wedi'i uwchraddio i safon llawer uwch a dylai fod yn llawer mwy ynni effeithlon nag yr oedd yn wreiddiol. Mae'n edrych fel petai'n moderneiddio ac yn lleihau arwynebedd y to a nodweddion o'r adeilad sy'n bodoli.

675.3 Cais 20/2020/0207 The Cottage Fron Isaf, Llanfair DC a gyflwynwyd gan Mr a Mrs Barlow. Adeiladu adeilad amaethyddol ar gyfer lletya da byw a storio porthiant a pheiriannau, ffurfio llecyn caled a gosod tanc septig. Cefnogir y cais yn ddarostyngedig i ymgynghori gyda'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ynghylch edrychiad yr adeilad.

Ystyriwyd y ceisiadau isod yn y cyfarfod hefyd:

675.4 Cais 20/2020/0936 Garth y Fron, Pentrecelyn. Cyflwynwyd gan Mr a Mrs David a Rachel Wood. Adeiladu estyniadau i ochr a thu cefn yr annedd a gwaith cysylltiedig. **PENDERFYNWYD** Cefnogi – dim gwrthwynebiadau.

675.5 Cais 20/2020/0335 Tir y tu cefn i Dŷ Capel, Graigadwywynt, Rhuthun. Cyflwynwyd gan Ms Jeanette Reaich. Adeiladu annedd fforddiadwy, gosod tanc septig newydd a gwaith cysylltiedig. **PENDERFYNWYD** Cefnogi – dim gwrthwynebiadau.

675.6 Cais 20/2019/0510 Silver Birches, Llanfair DC. Cyflwynwyd gan Mr Alun Lewis a Miss Rachel Davies – Torri wyth coeden yn yr Ardal Gadwraeth, wedi'i ddiwygio'n ddiweddarach. **PENDERFYNWYD** gofyn i'r swyddog cynllunio gadarnhau a gydymffurfio gyda'r amodau cymeradwyo.

676 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD Cadarnhaodd yr aelodau'r gweithredu ynghylch y cais isod a dderbyniwyd yn ystod yr argyfwng Covid:

676.1 Gorchymyn Gwyro Llwybr Cyhoeddus – Llwybr Cyhoeddus Rhif 19 – Castell Graigadwywynt Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans SJ 12313 53649 i SJ 12249 63664. Anfonwyd yr ohebiaeth a'r atodiadau at y cynghorwyr. Y consensws oedd nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig gan fod hwn yn llwybr sy'n mynd â cherddwyr oddi wrth adeilad a uwchraddiwyd yn ddiweddar. Efallai y bydd yr ymgeisydd yn dymuno cyfrannu tuag at arwyddion newydd i sicrhau fod y llwybr yn glir. Mae'r gwyriad yn mynd ar hyd darn trac byr, ond caiff ei ddefnyddio'n ysgafn iawn ac felly nid yw'n broblem. Hefyd **PENDERFYNWYD** y dylai'r Clerc ysgrifennu llythyr i'r Adran Priffyrdd yn awgrymu y dylid gofyn i'r holl ymgeiswyr gymryd cyfrifoldeb am gynnal arwyddion gwyriad a chadw llwybrau gwyro'n glir ac mewn cyflwr da.

676.2 Materion yn aros i'w datrys Nododd yr aelodau fod nifer o faterion priffyrdd sy'n aros i'w datrys, yn cynnwys problemau llifogydd, nad ydynt wedi cael eu trin oherwydd cyfyngiadau Covid. Cydnabuwyd, fodd bynnag, fod aelodau staff yr awdurdod lleol

wedi'u hadleoli i gynnal dyletswyddau hanfodol eraill yn ystod yr argyfwng cyfredol. Cytunwyd y dylid gweithredu ynghylch hyn unwaith y bo'r cyfyngiadau Covid yn caniatáu. Yn y cyfamser gellir hysbysu am bryderon ynghylch unrhyw gwlfert, tyllau yn y ffordd a materion eraill trwy gyfrwng gwefan Cyngor Sir Ddinbych.

677 MATERION ARIANNOL

677.1 Cyflwynwyd – Crynodeb Incwm a Gwariant a'r Cofnod Derbyniadau a Thaliadau ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020 PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cyfrifon.

677.2 Cyflwynwyd – Adroddiad ac Argymhellion yr Archwilydd Mewnol 2019-20

Mae'r archwilydd mewnol wedi argymhell fod y Cyngor yn [a] cynnal asesiad risg ariannol yn flynyddol, [b] diwygio'r rheoliadau ariannol i ddatgan yr isod yn adran 11.1 a. ii '...ar gyfer gwasanaethau arbenigol fel a ddarperir gan swyddogion cyfreithiol proffesiynol sy'n gweithredu mewn anghydfodau', a [c] sicrhau fod archebion am waith, nwyddau a gwasanaethau'n cael eu gwneud yn unol â rheoliadau ariannol y Cyngor. Dywedodd y Clerc y byddai ffurflen archeb brynu newydd yn cael ei defnyddio pryd bynnag y bo'n bosibl. **PENDERFYNWYD** nodi'r argymhellion, a gweithredu i'w rhoi ar waith gynted ag y bo modd.

677.3 Cyflwynwyd – Datganiad Cyfrifyddu 2019-20 a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, yn cynnwys dogfennau cefnogol, cysoniad banc ac esboniad amrywiadau arwyddocaol PENDERFYNWYD cymeradwyo'r dogfennau, a gwneud trefniadau i'r holl bapurau angenrheidiol gael eu llofnodi gan y Cadeirydd cyn eu cyflwyno i'r archwilydd allanol.

677.4 Talu Cyfrifon/Anfonebau PENDERFYNWYD [a] gwneud taliadau fel a ganlyn:
£168.00 Un Llais Cymru – aelodaeth flynyddol
£ 40.00 Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – ffi Diogelu Data
£175.68 JDH Business Services Ltd – ffi Archwiliad Mewnol
£536.46 Zurich Municipal – ffi yswiriant [ail flwyddyn cytundeb tair blynedd]
£420.00 Doodle IT [balans terfynol am lunio gwefan newydd y Cyngor]
£138.78 Sandra Williams [gwasanaeth cyfieithu]
[b] awdurdodi'r Clerc i wneud taliadau bancio ar-lein os yw'r Aelodau wedi cymeradwyo'r taliadau.

677.5 Ceisiadau am Gymorth Ariannol PENDERFYNWYD [a] dyfarnu grantiau fel a ganlyn:

£200 Capel Ebenezer Graigfechan [costau cynnal]

£200 Capel Salem [costau cynnal]

£150 Hosbis Plant Tŷ Gobaith [gofal nyrsio lliniarol i blant a phobl ifanc]

[b] er fod yr aelodau'n cydnabod pwysigrwydd eu gwaith, nad oedd modd dyfarnu arian ar yr achlysur hwn i

Tarian Cymru [darparu Offer Diogelu Personol i weithwyr iechyd a gofal yng Nghymru yn ystod yr argyfwng Covid-19] a
Cadw'r Curiadau Keep the Beats [er budd Clinig Cardioleg Covid-19 symudol]
[c] gohirio penderfyniad ynghylch cais Eisteddfod yr Urdd i gyfarfod yn y dyfodol.

677.6 Cyflwynwyd – Polisi Diwygiedig ar Gronfeydd Wrth Gefn

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r polisi fel y'i ysgrifennwyd.

677.7 Aseidiadau Risg Blynyddol, yn cynnwys dogfen ddrafft adolygu Risgiau Ariannol. Adroddodd y Clerc na ellid cynnal yr Aseiad Risg Blynyddol nes bo'r cyfyngiadau Covid wedi'u llacio. **PENDERFYNWYD** [a] cynnal yr aseiad risg iechyd a diogelwch blynyddol gynted ag y bo cyfyngiadau Covid yn caniatáu a [b] cymeradwyo'r ddogfen Risgiau Ariannol 2020-21 fel y'i hysgrifennwyd.

677.8 Cyflwynwyd – Strategaeth Fuddsoddi ddrafft 2020-21 PENDERFYNWYD

Cymeradwyo'r strategaeth.

677.9 Cyfrifiadur y Cyngor PENDERFYNWYD [a] cymeradwyo y dylai'r Clerc drefnu i A5PC Computer Services N Wales wasanaethu cyfrifiadur y Cyngor a gwneud gwaith hanfodol yn cynnwys [b] prynu gliniadur newydd ac offer cysylltiedig am £569.00 [darpariaeth wedi'i gynnwys yn y gyllideb braesept] [A5PC i'w wneud yn weithredol] ac [c] talu tanysgrifiad misol [£14.39 yn cynnwys Treth ar Werth] i ddefnyddio Zoom i gynnal rhith gyfarfodydd.

PART 2 678 PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol yr eitem a ganlyn:

679 GWAITH TRWSIO AC ADNEWYDDU COFEB RHYFEL LLANFAIR DC

679.1 Cyflwynwyd – Dogfennau tendr yn cynnwys Amserlen PENDERFYNWYD cadarnhau'r gweithredu a ddirprwywyd i'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Clerc i frwr'r mater ymlaen gyda Mr John Pugh, Syrfeiw'r Adeiladu Siartredig.

679.2 Penodi Contractwr – Roedd tri tendr wedi'u derbyn erbyn y dyddiad cau ar 6 Mai 2020. Roedd Mr John Pugh, Syrfeiw'r Adeiladu Siartredig, yn gweithredu fel asiant y Cyngor, wedi paratoi adroddiad terfynol/argymhelliad i'w ystyried gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, a'r Cyngor llawn yn dilyn hynny. **PENDERFYNWYD** dyfarnu'r contract i gynnal y gwaith trwsio ac adnewyddu i RW Masonry am £28,798.00 + £5,759.60 TAW.

679.3 Ffi yswiriant ychwanegol PENDERFYNWYD cymeradwyo talu ffi yswiriant ychwanegol o £120 i gwmpasu mân waith.

679.4 Dyfynbris – Delwedd Montage Cyfansawdd Digidol y Cynllun [cyflwynwyd samplau gwaith] **PENDERFYNWYD** peidio â derbyn y dyfynbris am £630 + TAW. Bwriedir defnyddio llun/darluniad cynllunio wedi'i lamineiddio yn lle i ddangos y cynllun, ynghyd ag erthygl yng Nghronicl Dyffryn Clwyd.

679.5 Blychau Blodau'r Gofeb Rhyfel Diolchodd yr aelodau i'r Cynghorydd Tim Faire a'i wraig Fiona Faire am gynnal y blychau blodau.

680 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

13/07/20 [rhith gyfarfod ar-lein], 14/09/20 [Coleg Cambria Llysfasi], 12/10/20 [Ysgol Llanfair], 09/11/20 Ysgol Pentrecelyn], 14/12/20 [Canolfan Genus, Llanrhydd], 11/01/21 [Coleg Cambria Llysfasi], 08/02/21 [Ysgol Llanfair], 08/03/21 [Ysgol Pentrecelyn]

Gorffennodd y cyfarfod am 8pm

_____CADEIRYDD _____DYDDIAD